Llais

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Llais Rhanbarth Gwent - Adroddiad Ymweliad

## Ysbyty Nevill Hall – Ward Dyffryn 3/3



**Fformatau hygyrch**

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni. Gallwch ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa:

01633 838516

gwentenquiries@llaiscymru.org

Llais Rhanbarth Gwent,

Tŷ Rhaglan,

William Brown Close

Cwmbrân

NP44 3AB

www.llaiscymru.org

www.llaiswales.org

# CEFNDIR

Corff cenedlaethol, annibynnol yw Llais, a gafodd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i roi mwy o lais i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Fel rhan o'n cynllun lleol, mae Llais Rhanbarth Gwent wedi nodi ein hymrwymiad i gynnal ymweliadau wyneb yn wyneb â wardiau a chael adborth gan bobl ar y pwynt lle maent yn cael gofal.

Ar 20 Mehefin 2023, gwnaeth ein hymwelwyr gwirfoddol fynychu Ward Dyffryn 3/3 yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni. Diben yr ymweliad hwn oedd pennu lefel boddhad pobl wrth iddynt aros ar y ward.

Er mwyn cwblhau'r ymweliad hwn, gwnaeth ein gwirfoddolwyr ymgysylltu â phobl ar y ward hon a nodwyd eu hadborth gan ddefnyddio arolwg.

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar yr hyn a ddywedodd pobl wrthym am eu profiadau o aros yn Ward Dyffryn 3/3, Ysbyty Nevill Hall.

# YR HYN A DDYWEDODD WRTHYM

Gwnaeth ein cynrychiolwyr ymweld siarad â 10 o bobl yn ystod eu hymweliad â Ward Dyffryn 3/3.

### *1.1 Y ward:*

Dim ond un person a gafodd daflen wybodaeth wrth gael ei dderbyn i'r ward hon. Roedd pawb yn fodlon ar yr oriau ymweld a oedd yn galluogi i deulu a ffrindiau ymweld â nhw.

### *1.2 Cyfathrebu:*

Dywedodd pedwar person wrthym eu bod wedi cael problemau cyfathrebu ar y ward. Fodd bynnag, roedd pawb wedi gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

### *1.3 Staff:*

Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y staff ar ward 3/3 yn gyfeillgar ac yn barod i helpu. Fodd bynnag, dywedodd un person wrthym ei fod wedi gweld staff yn rhyngweithio â chleifion eraill mewn "ffordd wael."

Dywedodd naw person wrthym bod staff bob amser yn cyflwyno eu hunain cyn iddynt ddarparu gofal, ond dywedodd un person nad oedd hyn wedi digwydd iddo.

Roedd y rhan fwyaf o bobl o'r farn bod staff yn gwrando arnynt yn ogystal â'u perthnasau wrth wneud penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth.

Pan ofynnwyd i bobl a oedd nifer y staff a oedd ar gael yn ystod y dydd a'r nos yn ddigon i ddiwallu eu hanghenion, cawsom ymateb cymysg.

Dywedodd un person wrthym fod staff yn *“gorweithio ac yn brysur iawn!”* Roedd hefyd o'r farn nad oedd digon o staff i helpu cleifion.

### 1.4 Seinwyr:

Roedd pob un o'r unigolion y gwnaethom siarad â nhw ar y ward hon yn gallu cyrraedd ei seiniwr a'i ddefnyddio. Fodd bynnag, nid oedd rhai pobl wedi defnyddio eu seinwyr hyd yma, felly nid oeddent yn sicr p'un a oeddent yn gweithio ai peidio.

Dywedodd rhai pobl a oedd wedi defnyddio eu seinwyr wrthym bod staff wedi ymateb yn amserol. Cawsom y sylwadau canlynol ynghylch yr amseroedd ymateb i seinwyr:

*“cyn gynted ag y gallant.”*

*“Roeddent yn brysur o bryd i'w gilydd.”*

*“Weithiau, pan nad oeddent yn brysur.”*

*“Rwyf angen mynd i'r toilet weithiau, ond dydy'r staff ddim yn ymateb i'r seiniwr yn ystod y dydd ac mae'n achosi poen mawr i mi.”*

### 1.5 Cyfforddusrwydd:

Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw ar y ward hon eu bod yn teimlo'n gyfforddus a bod ganddynt ddigon o flancedi a gobenyddion. Er hyn, dyweodd un person wrthym y byddent wedi hoffi cael gobenydd arall *“ond nad oedd yn bosibl iddo gael gobenydd arall.”*

Dywedodd pobl wrthym hefyd bod staff wedi'u hannog i godi a symud o gwmpas. Roedd staff yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny'n ddiogel.

### 1.6 Gofal personol:

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wrthym eu bod yn gallu cael cawod, golchi a golchi eu gwallt mor aml ag y dymunent. Er hynny, nid oedd dau berson yn teimlo y gallent wneud hyn mor aml ag y byddent wedi dymuno, gan fod angen cymorth arnynt.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu rhoi sylw i hylendid y geg/deintyddol pan oeddent yn dymuno.

Dywedodd un person wrthym ei fod yn teimlo nad oedd ei anghenion toiled yn cael eu bodloni am nad oedd y staff yn ymateb i'w seiniwr.

### *1.7 Cyfleusterau ar y ward:*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wrthym fod ganddynt deledu yn eu bae a bod ganddynt fynediad at eu dyfeisiau electronig. Roedd yn ymddangos bod y bobl ar y ward hon yn methu'r gwasanaeth troli.

### *1.8 Diflastod ac ynysigrwydd:*

Yn aml, gall aros yn yr ysbyty fod yn gyfnod pryderus ac unig i rai cleifion. Roedd yn braf nodi nad oedd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo'n ddiflas nac yn unig tra'n aros ar ward 3/3. Fodd bynnag, dywedodd un person wrthym ei fod yn teimlo'n unig, a dywedodd dau berson wrthym eu bod yn teimlo'n ddiflas.

Dywedodd y bobl wrthym nad oedd unrhyw weithgareddau ar y ward: gall hyn gael effaith andwyol ar rai o'r bobl. Dywedodd un person wrthym yr hoffai *"Rhai gweithgareddau fel bingo a gwasanaeth troli."*

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl yn ansicr a oedd ystafell ddydd, neu ystafell gymunedol y gallent ei defnyddio. Yn gyffredin, roedd pobl yn ansicr a oedd ystafell i'r ymwelwyr, neu a oedd ganddynt fynediad i ardal breifat y gallent ei defnyddio i wneud galwadau ffôn.

### *1.9 Amseroedd bwyd:*

O ran barn pobl am eu prydau, gofynnwyd i bobl raddio'r canlynol:

| | DA IAWN | DA | BODDHAOL | GWAEL | GWAEL IAWN |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd y bwyd** | 6 | | 2 | 1 | |
| **Tymheredd y bwyd** | 3 | 4 | 2 | | |
| **Cyflwyniad y bwyd** | 3 | 3 | 3 | | |
| **Maint dognau** | 4 | 2 | 2 | 1 | |
| **Y dewis o fwyd ar y fwydlen** | 3 | 4 | | 2 | |

Dywedodd pob un o’r deg o bobl y siaradwyd â nhw eu bod bob amser yn cael y pryd roeddent wedi’i archebu, a’u bod yn hapus gyda lefel y cymorth a gawsant i fwyta ac yfed. Er hynny, dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wrthym nad oeddent yn cael cynnig dewis o ble i fwyta eu prydau.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wrthym nad oedd y staff yn annog cleifion i ddefnyddio cyfleusterau hylendid dwylo cyn prydau bwyd.

Cafwyd ymateb cymysg pan wnaethom ofyn i bobl a oeddent yn gallu cael gafael ar fyrbrydau yn ystod y dydd a'r nos. Dywedodd un person wrthym mai dim ond byrbrydau oedd ganddynt oherwydd bod ganddynt rai eu hunain.

Teimlai rhai nad oedd eu jwg dŵr yn cael ei newid yn ddigon aml.

Sylwadau:

*“Weithiau mae’n cael ei adael yn wag.”*

*“Dim ond wedi newid ddwywaith - dim digon.”*

*“Cyfyngedig”*

### *1.10 Sylwadau'r bobl:*

Gofynnwyd i bobl beth oedd wedi bod yn gadarnhaol am eu hamser ar y ward.

Sylwadau:

*“Mae gofal cymysg weithiau’n dda.”*

*“Staff da iawn, gofal meddygol a’r bwyd yn iawn.”*

*“Wedi bod yn dda iawn gyda fi, bwyd yn dda iawn, mae’r cinio yn rhy fawr!”*

*“Yn fy helpu i wella a lleddfu poen.”*

*“Hapus gyda'r cwmni”*

*“Yn teimlo fel gwyliau, wedi bod yma sawl gwaith.”*

*“Hapus gyda lefel y gofal.”*

Gwnaethom hefyd ofyn i bobl ddweud wrthym a oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau a allai wella eu harhosiad ar y ward.

Sylwadau:

*“Ward sengl, a gyda chyfleusterau toiled. Materion staffio.”*

*“Dim.”*

*“Dŵr yn cael ei ychwanegu’n fwy rheolaidd. Nid yw dwywaith y dydd yn ddigon.”*

*“Siarad â’r henoed gyda pharch.”*

*“Gwasanaeth troli.”*

*“Mwy o staff – yn brysur iawn! Hoffwn gael cwmni, mae'r nyrsys yn rhy brysur.”*

## Casgliad:

I gloi, yn gyffredinol, rhoddodd pobl sy'n derbyn gofal ar Ward Dyffryn 3/3 adborth cadarnhaol i'n gwirfoddolwyr am eu harhosiad.

Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n amlygu ystod o feysydd lle byddai Llais yn argymell ac yn croesawu gwelliannau, er mwyn sicrhau bod arhosiadau cleifion mor ddi-straen a chyfforddus â phosibl.

Er bod Llais yn cydnabod y pwysau system ar draws y GIG, mae'n bwysig bod staff bob amser ar gael i gleifion ar y ward a bod ganddynt amser ar gyfer tasgau gofalu yn ogystal â thasgau meddygol arferol.

Gofynnwn yn barchus felly i’r Bwrdd Iechyd ystyried ein hargymhellion ar gyfer y gwelliannau a ddangosir isod.

# ARGYMHELLION

Hoffai Rhanbarth Llais Gwent i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ystyried yr argymhellion canlynol:

a) A fyddech cystal â rhannu'r sylwadau cadarnhaol a roddwyd drwy gydol yr adroddiad hwn gyda staff ward Dyffryn 3/3.

b) Sicrhau pan fydd gan rywun broblemau cyfathrebu, bod eu hanghenion yn cael eu hasesu, a bod trefniadau'n cael eu gwneud fel y gallant ymgysylltu'n effeithiol.

c) Darparu taflenni gwybodaeth i bobl wrth gyrraedd y ward.

d) Nodi'r pryder a godwyd ynghylch person sy'n dyst i staff yn siarad â'r bobl ar y ward mewn "modd gwael." Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried ffyrdd o gefnogi staff i ddangos agwedd ofalgar a thosturiol.

e) Sicrhau bod staff yn ymateb i alwadau am gymorth (naill ai seinyddion neu ddulliau eraill), mewn modd amserol.

f) Ymateb yn gyflym pan fydd claf yn gofyn am gymorth i ddefnyddio'r toiled.

g) Adolygu lefelau staffio ar y ward hon, gan y dylai staff fod ar gael drwy'r dydd a'r nos i ddiwallu anghenion y bobl sy'n aros ar y ward. Mae'n destun pryder bod adroddiad bod rhywun mewn poen am na chafodd gymorth i ddefnyddio'r toiled.

h) Er mwyn gwneud pobl yn ymwybodol o'r ystafell ddydd, yr ystafell gymunedol neu'r ardal breifat y gallant ei defnyddio ac ystyried cyflwyno gweithgareddau mewn ymgynghoriad â'r bobl ar y ward hon, lle bo'n bosibl, er mwyn ceisio lleihau unigrwydd a diflastod.

**Atodiad 1 – Canlyniadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn yr Arolwg**

Nifer y bobl a lenwodd y cwestiynau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth: naw.

| **Beth yw eich dewis iaith?** | |
|---|---|
| Saesneg | Arall |
| 7 | |

| **Pa rywedd rydych yn uniaethu ag ef?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dyn/bachgen | Menyw/merch | Anneuaidd | Arall | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| 3 | 6 | | | |

| **A ydych yn ystyried eich bod yn berson traws?** | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| | 9 | |

| **Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?** | | | |
|---|---|---|---|
| Anrhywiol | Deurywiol | Hoyw | Lesbiaidd |
| | | | |
| Heterorywiol/Syth | Panrywiol | Arall | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| 8 | | | |

| Mis a Blwyddyn Geni | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ion<br>1930-40 | Chwe | Maw | Ebr<br>1950-60 | Mai<br>1950-60 | Meh |
| 1 | | | 1 | 1 | |
| Gorff | Awst | Medi<br>1930 - 50 | Hyd | Tach | Rhag |
| | | 2 | | | |
| Misc<br>1930-70 | | | | | |
| 4 | | | | | |

| Beth yw eich ethnigrwydd? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | | | | |
| Bangladeshaidd | Tsieineaidd | Indiaidd | Pacistanaidd | Arall |
| | | | | |

| Du neu Ddu Prydeinig | | |
|---|---|---|
| Bangladeshaidd<br>Tsieineaidd | Indiaidd<br>Pacistanaidd | Arall |
| | | |

| Cymysg | | | |
|---|---|---|---|
| Asiaidd a Gwyn | Du Affricanaidd a Gwyn | Du Caribïaidd a Gwyn | Arall |
| | | | |

| Gwyn | | | |
|---|---|---|---|
| Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig | Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | Gwyddelig | Arall |
| 9 | | | |

| Grŵp ethnig arall | | |
|---|---|---|
| Arabaidd Unrhyw un arall | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall |
| | | |

| Beth yw eich crefydd neu gred? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bwdhaeth | Cristnogaeth | Hindŵaeth | Islam | Iddewiaeth |
| | 7 | | | |
| Siciaeth | Anffyddiaeth | Dim crefydd | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall |
| | | 1 | | 1 |

| A ydych yn ystyried bod gennych anabledd? | | |
|---|---|---|
| Ydw | Na | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| 6 | 3 | |

| Ydych chi'n gofalu am aelod o'ch teulu, ffrind neu gymydog, neu'n rhoi cymorth iddo o ganlyniad i anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl neu broblemau sy'n ymwneud â henaint? | | |
|---|---|---|
| Byddai | Na | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| 1 | 8 | |

| A ydych yn feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | | |
|---|---|---|
| Ydw | Na | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| | 9 | |

| Dywedwch wrthym pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich statws ariannol? | |
|---|---|
| Mae gen i fwy na digon ar gyfer hanfodion, a swm mawr o incwm gwario, y gallaf ei gynilo neu ei wario ar unrhyw beth ychwanegol neu ar weithgareddau hamdden | 1 |
| Mae gen i fwy na digon ar gyfer hanfodion, a swm bach o incwm gwario, y gallaf ei gynilo neu ei wario ar unrhyw beth ychwanegol neu ar weithgareddau hamdden | 1 |
| Mae gen i ddigon ar gyfer hanfodion a fawr ddim arall | 5 |
| Nid oes gen i ddigon ar gyfer pethau angenrheidiol ac weithiau byddaf yn rhedeg allan o arian | |
| Wn i ddim/gwell gennyf beidio â dweud | 2 |

**Atodiad 2**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Cwblhewch y tabl canlynol er mwyn nodi a fydd polisi/gweithgarwch/adroddiad Llais yn cael effaith andwyol, gadarnhaol neu wahaniaethol ar y grwpiau canlynol, neu na fydd yn cael unrhyw effaith o gwbl.

| **Effaith** | **Dim** | **Negyddol** | **Cadarnhaol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion Gwarchodedig** | | | | |
| Oedran | X | | | |
| Anabledd | X | | | |
| Rhyw | X | | | |
| Hil | X | | | |
| Crefydd/Credoau | X | | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | X | | | |
| Ailbennu Rhywedd | X | | | |
| Priodas a Phartneriaeth sifil | X | | | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | X | | | |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Y Gymraeg | | | X | Caiff adroddiadau ac arolygon eu cyhoeddi yn ddwyieithog |
| Ieithoedd eraill | | X | | Gellir cyhoeddi adroddiadau ac arolygon yn yr iaith ofynnol ar gais |
| Hawliau Dynol | X | | | |
| Lefel tlodi | X | | | |
| Unigolion â dibynyddion | X | | | |
| Poblogaeth wledig | X | | | |
| Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr | X | | | |
| Unigolion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio technoleg ddigidol | X | | | |

**Asesiad risg**

| |
|---|
| **A oes unrhyw risgiau'n codi wrth roi'r polisi hwn ar waith?**<br>Dd/G |
| **Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?**<br>Dd/G |
| **Y Gymraeg**<br>Mae'r ddogfen hon/polisi/adroddiad hwn wedi'i hasesu/asesu yn unol â'n gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer safonau:<br>37,38<br>69,70,71<br>Wrth benderfynu ar yr effaith, gallwn ddangos y canlynol:<br>Mae pob dogfen gyhoeddus gan y Llais ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Mae'r Llais yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg.<br><br>**Canlyniad**<br>Effaith gadarnhaol –<br>Safonau 37, 38 – Caiff pob dogfen gyhoeddus ei llunio a'i chyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Safonau 69-71 – Rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg.<br>Effaith Negyddol – Dim |